

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Cyffordd 1 (Cyfnewidfa
Rhiwabon) i Ffin Cymru/Lloegr,
Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau
Traffig Dros Dro) 2018

The A483 Trunk Road (Junction 1
(Ruabon Interchange) to the
Wales/England Border, Wrexham
County Borough) (Temporary
Traffic Prohibitions and
Restrictions) Order 2018

Gwnaed 25 Medi 2018

Made 25 September 2018

Yn dod i rym 1 Hydref 2018

Coming into force 1 October 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) i Ffin Cymru/Lloegr, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Hydref 2018.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Junction 1 (Ruabon Interchange) to the Wales/England Border, Wrexham County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2018 and it comes into force on 1 October 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Hydref 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 1 October 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of work are permanently removed.

Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No person may, during the works period, proceed on foot on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in paragraph 1 of the Schedule to this Order.

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in paragraph 1 of the Schedule to this Order.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 6 a 7 mewn grym.

Cymhwyso

9.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

10. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

11. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

25 Medi 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

8. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order during such times as the restrictions referred to in articles 6 and 7 are in operation.

Application

9.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7 and 8 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Suspension

10. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 6 and 7 are in operation.

Duration of this Order

11. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

25 September 2018

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

YR ATODLEN

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) hyd at ffin Cymru/Lloegr, i'r gogledd o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

2. Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd a thua'r de wrth Gyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon), Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Johnstown), Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Croes-foel), Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Ruthun), Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug), Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) a Chyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

SCHEDULE

1. The length of the trunk road that extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 1 (Ruabon Interchange) to the Wales/England border, north of Junction 7 (Rossett Interchange).

2. The lengths of the northbound and southbound exit and entry slip roads at Junction 1 (Ruabon Interchange), Junction 2 (Johnstown Interchange), Junction 3 (Croesfoel Interchange), Junction 4 (Ruthin Road Interchange), Junction 5 (Mold Road Interchange), Junction 6 (Gresford Interchange) and Junction 7 (Rossett Interchange).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(CYFFORDD 1 (CYFNEWIDFA RHIWABON) I
FFIN CYMRU/LLOEGR, BWRDEISTREF
SIROL WRECSAM) (GWAHARDDIADAU A
CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) a ffin Cymru/Lloegr, Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar ddarnau penodedig o'r A483 o fewn y darn cyfan o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn pan fydd angen gwneud gwaith mewn safle penodol.

Pan fo'n bosibl, bydd y brif gerbyttffordd ar gau am gyfnodau byr ac ni fydd llwybrau eraill yn ofynnol. Fodd bynnag, pan fo angen cau am gyfnodau hirach disgrifir y llwybr arall ar gyfer y brif gerbyttffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael yn Atodlen 2.

ii. Gwahardd beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darnau o'r A483 a ddisgrifir yn Atodlen 1.

iii. Gosod terfyn cyflymder 40 mya neu 50 mya ar y darn o'r A483 a ddisgrifir ym mharagraff 1 o Atodlen 1. Ni chaniateir goddiweddyd pan fydd y terfynau cyflymder is yn weithredol.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 1 Hydref 2018 ac yn weithredol, yn ysbeidiol, am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd yr amseroedd a'r dyddiadau yn amrywio o un safle i'r llall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A483 TRUNK ROAD (JUNCTION 1
(RUABON INTERCHANGE) TO THE
WALES/ENGLAND BORDER, WREXHAM
COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY
TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS)
ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road between Junction 1 (Ruabon Interchange) and the Wales/England border, Wrexham County Borough.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on specified lengths of the A483 within the overall length of the trunk road described in Schedule 1 to this Notice when work is required at a particular site.

Where possible, main carriageway closures will be for short periods of time and no alternative routes will be required. However, where longer closures are needed the alternative route arrangements for both main carriageway and slip road closures are described in Schedule 2.

ii. Prohibit cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A483 described in Schedule 1.

iii. Impose either a 40 mph or 50 mph speed limit on the length of the A483 described in paragraph 1 of Schedule 1. No overtaking will be permitted when the reduced speeds limits are in force.

The temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 00:01 hours on 1 October 2018 and operate, intermittently, for a maximum duration of 18 months. Times and dates will vary from site to site.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

1. Y darn o'r A483 sy'n ymestyn o bwynt 800 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) hyd at ffin Cymru/Lloegr, i'r gogledd o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

2. Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd a thua'r de yr A483 wrth Gyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon), Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Johnstown), Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Croes-foel), Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Ffordd Ruthun), Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug), Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) a Chyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

ATODLEN 2 Llwybrau eraill

Cau'r Brif Gerbyttffordd

Codir arwyddion priodol i nodi'r gwyriad ar gyfer y llwybrau eraill a byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o'r A483 a ddisgrifir uchod ar gau dros dro i draffig.

Bydd llwybrau eraill ar gael drwy fynd ar yr A539, y B5605, yr A5152, yr A525, yr A541, y B5102, y B5445, y B5373, yr A550 a'r A55, fel y bo'n briodol.

Cau'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael

Y llwybr arall yn ystod y cyfnod pan fydd y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) ar gau fydd mynd ar yr A539 tua'r gorllewin ac ar y B5605 tua'r gogledd i ailymuno â'r A483 wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Croes-foel).

Y llwybr arall yn ystod y cyfnod pan fydd y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) ar gau fydd mynd ar yr A483 tua'r de i Gylchfan Halton er mwyn dychwelyd tua'r gogledd ac ymadael wrth Gyffordd 1.

Y llwybrau eraill ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd a thua'r de ac sy'n dymuno ymadael â'r A483 wrth Gyffordd 2, 3, 4, 5, 6 a 7 fydd aros ar yr A483, parhau hyd at y gyfnewidfa nesaf, ymadael yno a dychwelyd ar y gerbyttffordd gyferbyn hyd at y lleoliad y maent yn dymuno ymadael â'r A483.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd ac sy'n dymuno ymuno â'r A483 wrth Gyffordd 2, 3, 4, 5, 6 a 7 fydd ymuno â cherbyttffordd tua'r de yr A483, parhau hyd at y Gyfnewidfa nesaf, ymadael yno a dychwelyd tua'r gogledd: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de ac sy'n dymuno ymuno â'r A483.

SCHEDULES

SCHEDULE 1

1. The length of the A483 that extends from a point 800 metres south of the centre-point of Junction 1 (Ruabon Interchange) to the Wales/England border, north of Junction 7 (Rossett Interchange).

2. The entire lengths of the A483 northbound and southbound exit and entry slip roads at Junction 1 (Ruabon Interchange), Junction 2 (Johnstown Interchange), Junction 3 (Croesfoel Interchange), Junction 4 (Ruthin Road Interchange), Junction 5 (Mold Road Interchange), Junction 6 (Gresford Interchange) and Junction 7 (Rossett Interchange).

SCHEDULE 2 Alternative Route Arrangements

Main Carriageway Closures

The alternative routes will be signed with appropriate diversion signs and will vary depending on destination and when a particular length of the A483 described above is temporarily closed to traffic.

Alternative routes will be available via the A539, B5605, A5152, A525, A541, B5102, B5445, B5373, A550 and A55, as appropriate.

Slip Road Closures

The alternative route during closure of the northbound entry slip road at Junction 1 (Ruabon Interchange) is via the westbound A539 and northbound B5605 to rejoin the A483 at Junction 3 (Croesfoel Interchange).

The alternative route during closure of the southbound exit slip road at Junction 1 (Ruabon Interchange) is via the southbound A483 to Halton Roundabout to return northbound and exit at Junction 1.

The alternative routes for northbound and southbound vehicles wishing to leave the A483 at Junctions 2, 3, 4, 5, 6 and 7 will be to remain on the A483, continue to the next interchange, exit and return on the opposite carriageway to the desired location.

The alternative route for northbound vehicles wishing to join the A483 at Junctions 2, 3, 4, 5, 6 and 7 will be to join the southbound carriageway of the A483, continue to the next Interchange, exit and return northbound: vice versa for southbound vehicles wishing to join the A483.

